

Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam

**Adolygu Cynnydd yn
erbyn Safonau Gofal
Iechyd Cymru -
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Hydref 2007

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2.	Proses Asesu 2006-07	5
3.	Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Wrecsam	9
4.	Canfyddiadau	
	▪ Profiad y Claf	11
	▪ Canlyniadau Clinigol	23
	▪ Rheoli Gofal Iechyd	27
	▪ Iechyd y Cyhoedd.....	47
5.	Y Camau Nesaf.....	51

Atodiadau

Atodiad 1 : Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd	53
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon.....	55
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr	63
Atodiad 4: Rhestr Termau.....	65

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r gwaith yr ymgwymerwyd ag ef gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad o berfformiad Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Wrecsam 2006-2007 yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn amlinellu fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi'r GIG a'i bartneriaid i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3 Yn gyntaf oll, diben y Safonau Gofal Iechyd yw cyflwyno'r gwell lefelau gofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru hawl resymol i'w disgwyl a chan hynny darparu sylfaen er mwyn i sefydliadau gofal iechyd ddatblygu a chyflawni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion a amlinellir yn strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd¹ yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, waeth beth fo'r lleoliad.

1.4 Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn amlinellu 32 safon o dan bedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o werthoedd craidd a ddylai fod yn sail i gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac y mae pob safon o fewn y maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn nodi:

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a

¹ Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel sefydliadau GIG Cymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd ar gyfer cleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau cleifion unigol gan y byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd i gleifion.

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi:

Bydd y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil a aseswyd yn briodol yn dangos y bydd yn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu nac yn ystod eu llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes 'Rheoli Gofal Iechyd' yn nodi'n glir:

Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweinyddiaeth ac atebolrwydd rheolaethol a chlinigol ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn nodi:

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio â sefydliadau perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, ac a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac yn helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiad

1.5 O fis Ebrill 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i sefydliadau gofal iechyd y GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a llunio datganiad cyhoeddus blynyddol ar eu perfformiad.

1.6 Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiad a'u ffurflenni hunanasesu yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain wrth gydlynu profi

a dilysu'r ffurflenni, gan ddefnyddio dadansoddiad ar sail risg, yn erbyn ystod o ffynonellau data. Amlinellir y broses a fabwysiadir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu ffurflenni 2006-2007 yn yr adran a ganlyn.

1.7 O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfio â'r safonau gofal iechyd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at Ddatganiadau o Reolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol y sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1 Blwyddyn ddatblygiadol oedd 2006-2007, a gwelwyd proses asesu newydd yn cael ei datblygu a'i phrofi. Rhoddwyd y pwyslais ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod y cyfrifoldeb dros gydymffurfio â *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn gadarn ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd ac sy'n cefnogi'r agenda reoli. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac, yn bwysicach, y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2 Mewn ymgynghoriad â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel benodol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae'r Byrddau yn gwneud eu gwaith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaid â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut y gellir sicrhau cydymffurfiaid â'r safonau ar lefel gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Claf*² - sut beth yw profiad y claf ac a yw hynny'n gwella?

2.3 Mae meini prawf a chwestiynau asesu wedi'u gosod ar gyfer pob safon ac wedi'u datblygu yn ddull asesu ar y we sy'n caniatáu am gwblhau'r hunanasesiadau ar-lein a llwytho'r dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddir ar gyfer pob cwestiwn. Cefnogir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n rhoi arweiniad defnyddiol ar ofynion pob un o'r 32 safon.

2.4 Roedd yn ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd wrth gyflwyno'r lefel perfformiad uchaf yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu am asesu perfformiad ar y

² Yng nghyd-destun proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr ar un o bum lefel aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymateb
- Datblygu
- Ymarfer
- Arwain

Rhoddir diffiniad o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1.

2.5 Gan ei bod hi'n flwyddyn ddatblygiadol, bu'n rhaid i sefydliadau'r GIG gadw at rai amserlenni tynn ac roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno eu hunanasesiad wedi'i gwblhau i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, dri mis ar ôl rhyddhau'r dull asesu. Cyflwynodd BILI Wreccsam eu hunanasesiad o fewn y dyddiad terfyn a dymunwn gydnabod yr holl waith, ymdrech ac ymrwymiad a ddangoswyd gan BILI Wreccsam wrth sicrhau eu bod yn cadw at y terfynau amser.

Profi a Dilysu

2.6 Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu hunanasesiad BILI Wreccsam, ac mae hyn wedi cynnwys sawl cam:

- *Cam 1* – dilysiad bwrdd gwaith o'r hunanasesiad gan dîm o adolygwyr sy'n gydweithwyr ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn cynnwys gwirio pa un a oedd y cwestiynau sy'n cefnogi pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, gan brofi a oedd yr ateb yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r sgôr aeddfedrwydd a ddarparwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd safoni yn ystod mis Awst er mwyn cymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol er mwyn sicrhau cysondeb a safoni'r sgorau.

- *Cam 3* – Ymweliadau safle â sefydliadau i brofi agweddau pwysig ar brofiad y claf/defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7 Roedd yr ymweliad safle yn un cam o ddilysu a phrofi hunanasesiad BILI Wreccsam ac, fel y nodwyd uchod, roedd yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 3 Medi 2007 ac fe wnaethom hwyluso grwpiau ffocws gyda chleifion a staff.

2.8 Yn ychwanegol at hynny cynhaliwyd archwiliadau o ran cofnodion y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT), hyfforddiant a gwerthuso ar gyfer staff ar ddyletswydd ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar gael ar wefan AGIC yn www.hiw.org.uk.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9 Ym mis Awst, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydlynw a hwyluso tri chyfarfod rhanbarthol, sef 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan ddwyn ynghyd sefydliadau adolygu ac archwilio er mwyn rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu at broses gadarnhau asesu'r Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol wrth symud tuag at rannu gwybodaeth yn well ar draws sefydliadau adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrwydd ar y cyd.

3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Wrecsam

3.1 Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam ar 1 Ebrill 2003, fel rhan o ad-drefnu'r GIG yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n sefydliad statudol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ystod o sefydliadau a buddiannau cymunedol o fewn y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys: cynrychiolwyr o'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol ac aelodau lleyg.

3.2 Nodau strategol y Bwrdd yw:

- gwella iechyd pobl leol;
- cynllunio datblygiad gofal sylfaenol; a
- phrynu gwasanaethau iechyd i fynd i'r afael ag anghenion ei boblogaeth.

4. Canfyddiadau - Gan gynnwys Meysydd i'w Gwella ac Arfer Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Ymgynghori â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ond yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S1.2. Roedd y BILL yn gallu dangos bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r safon hon ac roedd rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd.
- Gweithdrefn a pholisi Cwynion.
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.
- Panel Darllenwyr (aelodau'r cyhoedd sy'n darllen drwy ddogfennau cyhoeddus cyn eu cyhoeddi).
- Is-grwpiau'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc.
- Pwyllgor Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd sy'n sicrhau cynrychiolaeth gan y sector gwirfoddol a'r cyngor iechyd cymuned.

S1.3. Mae'r strategaeth Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd a chwe grwp rhaglen y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn darparu ffyrdd i'r Bwrdd geisio barn y cyhoedd a chleifion.

S1.4. Yn ogystal â hyn, yn ystod ein hymweliad safle â'r BILL, rhoddodd grwpiau staff a chleifion dystiolaeth fod y BILL yn gweithio ar ei gysylltiadau â'r cyhoedd trwy grwpiau a fforymau cyhoeddus er mwyn darparu adborth, er enghraifft y grwp cyfeirio ar gyfer diabetes.

S1.5 Rydym yn cadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 2

Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol; ac*
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S2.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun gweithredu blynyddol 2007-2008.
- Cylch gorchwyl comisiynu ar y cyd.
- Adroddiad perfformiad y Bwrdd ym mis Mai 2007.
- Adroddiad monitro'r tîm rheoli perfformiad.
- Polisi cydraddoldeb Cymru gyfan.
- Gwell templed ar gyfer monitro'r gwasanaeth.
- Adroddiad blynyddol calonnau a meddyliau.
- Grwp adolygu strôc.

S2.3. Mae Bwrdd y BILI yn cwrdd yn fisol a derbynnir adroddiadau gan Gyfarwyddwyr y BILI sy'n cynnwys asesiadau anghenion manwl a data am y galw a pherfformiad. Ar ôl derbyn blaenoriaethau cenedlaethol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sefydlodd Tîm Rheoli'r BILI ynghyd â swyddogion y BILI a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, restr o flaenoriaethau a drafodir gan y Bwrdd. Mae blaenoriaethau cytûn yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Blynyddol y BILI. Pan fydd amcanion newydd yn codi yn ystod y flwyddyn fe'u trafodir yn gyntaf

mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r BILI a bydd y Bwrdd yn cytuno ar eu blaenoriaeth a'r ffordd ymlaen. Mae'r Bwrdd yn monitro cydymffurfiad yn erbyn canllawiau cenedlaethol trwy'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio clinigol. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i gydraddoldeb ar gyfer cleifion ac mae wedi sefydlu polisi a chynllun cydraddoldeb.

S2.4 Mae mynediad at Ofal Sylfaenol 24 awr y dydd yn cael ei fonitro'n chwarterol trwy'r broses fonitro well ac mae mynediad at ofal eilaidd yn cael ei fonitro trwy ei Fframwaith Gweithredu Blyneddol. Fe wnaeth y BILI weithredu pob un o dargedau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynediad at ofal nad yw'n frys yn 2006-07.

S2.4 Nid yw'r BILI yn rhoi manylion amserau aros i gleifion, ond mae wedi datblygu cyfeirlyfr gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai gwybodaeth gyfyngedig a ddarperir gan y BILI mewn perthynas uniongyrchol â thystiolaeth ac arfer gorau. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a'i fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr am ei fod wedi cyflawni targedau cenedlaethol. Serch hynny, mae'n ymddangos bod ffynonellau gwybodaeth ar gyfer cleifion yn wan.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Rydym yn cadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

S3.2 Mae'r BILI yn monitro perfformiad ar draws y prif feysydd gwasanaeth megis Damweiniau ac Achosion Brys, oedi wrth drosglwyddo gofal ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael. Ceir dystiolaeth i ddangos gwelliant parhaus yn adroddiad perfformiad y Bwrdd.

S3.3 Yn ystod ein hymweliad safle â'r BILI, cawsom dystiolaeth bellach i gefnogi'r asesiad ei fod yn Datblygu, er enghraifft roedd adborth gan gleifion a'r cyhoedd yn gadarnhaol ynghylch amserau aros.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

- a. yn hyrwyddo lles cleifion a'r staff;*
- b. yn parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; ac*
- ch. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S4.2 Mae ystod o gynlluniau a pholisïau sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac iaith wedi'u sefydlu ac mae camau'n cael eu cymryd i fonitro amgylcheddau gofal iechyd trwy ddefnyddio ffurflenni monitro Meddygon Teulu, sy'n rhoi sgôr i bractisiau Meddygon Teulu o ran agweddau megis mynediad at leoedd parcio i'r anabl a chyfleusterau ar y safle, ac yn tynnu sylw at feysydd pryder yr hysbysir y BILI amdanynt.

S4.3. Serch hynny, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael o fonitro darparwyr gofal eilaidd ac i ba raddau y mae'r BILI yn dylanwadu ar wella darparu gwasanaethau o ganlyniad i'r wybodaeth y mae'n ei chasglu ynghylch ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu comisiynu gan ddarparwyr gofal eilaidd.

S4.4 Ceir tystiolaeth o gyfraniad cyfyngedig gan staff wrth ddylanwadu ar gynllunio a datblygu gwasanaethau trwy'r broses ymgynghori, grwpiau llywio prosiectau a'r Dull Asesu Cyflawni Rhagoriaeth o ran Cynllunio (AEDET). Ceir tystiolaeth i ddangos bod camau ymarferol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion allweddol.

S4.5 Yn ystod ein hymweliad safle â'r BILI cawsom adborth gan staff a chleifion a oedd yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws. Roedd y materion y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys:

- Nid oedd gan yr holl Feddygon Teulu o fewn ardal y BILI gyfleusterau parcio ceir.
- Mae glanweithdra mewn rhai cyfleusterau gofal sylfaenol ac eilaidd yn achos pryder.
- Diffyg preifatrwydd mewn rhai lleoliadau gofal sylfaenol.
- Roedd cleifion o gefndiroedd crefyddol penodol yn pryderu ynghylch diffyg parch o fewn gofal sylfaenol.
- Diffyg Meddygon Teulu benywaidd yn yr ardal.

S4.6 Yn dilyn y grwpiau ffocws staff, rhoddodd y BILI sicrwydd i'r tîm adolygu ei fod yn gweithio'n agos â'r Cyngor Iechyd Cymuned ar y materion hyn a'i fod yn ymdrin â rhai ohonynt ar hyn o bryd, gan gynnwys y diffyg Meddygon Teulu benywaidd yn yr ardal. Felly, rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Gallwn gadarnhau'r asesiad hwnnw.

S5.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn gweithio i fynd i'r afael â'r safon hon. Roedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i gefnogi ei asesiad yn cynnwys:

- Defnyddio dull asesu fferyllfeydd cymunedol.
- Adolygu ansawdd a chanlyniadau.

- Fframwaith Canlyniadau Ansawdd (FfCA) mewn Gofal Sylfaenol.
- Strategaeth llywodraethu clinigol.
- Polisi iechyd a diogelwch y Bwrdd.

S5.3 Mae'r Bwrdd wedi darparu digon o dystiolaeth i awgrymu ei fod yn monitro ac yn cydymffurfio â gofynion statudol a manylebau cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer adeiladau sydd newydd eu comisiynu. Mae'r Bwrdd yn dangos ei fwriad strategol trwy'r asesiadau Meddygon Teulu a Deintyddol. Ceir tystiolaeth hefyd o drefniadau rheoli a chynnal a chadw priodol ar gyfer eiddo sy'n gysylltiedig â'r BILI ei hun a darparwyr gofal sylfaenol. Serch hynny, mae angen i'r Bwrdd ddangos ei allu i fynd i'r afael â materion tebyg ynglyn â darparu gofal eilaidd. Rhoddwyd enghreifftiau i ddangos bod adeiladau Meddygon Teulu yn cael eu monitro a bod camau'n cael eu cymryd trwy'r Rheolwr Llywodraethu Clinigol i fonitro lefelau hylendid. Fodd bynnag, ni chafwyd tystiolaeth i awgrymu bod darparwyr gofal eilaidd neu ddarparwyr gofal sylfaenol eraill yn cael eu harchwilio.

S5.4 Roedd yr adborth a gafwyd yn ystod ein hymweliad safle â'r BILI yn awgrymu bod lefelau glanweithdra mewn pocedi 'bach' o ddarparwyr yn achos pryder.

Safon 6

Mae sefydliadau gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr, y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac yn*
- c. rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r polisi a'r strategaethau y maent wedi'u sefydlu, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth gyfathrebu sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan yr is-grwp cyfathrebu.
- Strategaeth Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, sy'n ceisio sicrhau bod cynnwys cyhoedd a'r cleifion yn rhan annatod o waith y BILI.
- Polisi Cwynion.

Hefyd, mae gan y BILI 'Banel Darllenwyr', sy'n adolygu'r holl lenyddiaeth ddrafft. Mae gan y BILI 'Banel Dinasyddion' ar y cyd â Chyngor Sir Wrecsam, sy'n galluogi'r cyhoedd i fynegi eu safbwyntiau a'u barn am wasanaethau. Serch hynny, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael o'r BILI yn darparu gwybodaeth ehangach am wasanaethau, er enghraifft, trwy daflenni, y wefan neu ganllawiau i ddefnyddwyr. Mae'n aneglur sut mae'r Bwrdd yn sicrhau bod ei daflen 'gwybodaeth am wasanaethau' ar gael, yn hawdd cael gafael ynddi ac yn briodol. Mae'r Rhaglen Hyfforddi Gofal Diabetig yn darparu gwybodaeth am anghenion dietegol a maeth. Fodd bynnag, nid oedd ymateb y BILI yn cyfeirio at ddarparu gwybodaeth ynghylch unrhyw gyflyrau, gofal a thriniaethau eraill sydd ar gael na sut yr eir i'r afael â hyn.

S6.3 I grynhoi, er bod y Bwrdd wedi dangos ei fwriad strategol a'i fod yn rhoi cyfeiriad trwy bolisiâu a strategaethau, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu sut y mae'n gwella gwasanaethau na sut y mae gwybodaeth yn cael ei defnyddio i gynorthwyo wrth sicrhau gwelliant ar draws y BILI. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos sut y mae cleifion yn cael gwybodaeth am ofal neu gyflyrau neu fynediad at wasanaethau.

S6.4 Cadarnhaodd ein hymweliad safle â'r BILI mai dim ond dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael i ddangos bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau trwy ddarparwyr gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Felly, rydym yn asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymateb** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 7

Mae'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S7.2 Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac yn dangos cyfeiriad strategol, er enghraifft trwy:

- Weithredu "Creu System Deg ac Unedig ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal" mewn Cartrefi Gofal a'r lleoliad cymunedol.
- Grwp cyfeirio ar gyfer Diabetes, sy'n adolygu cynllun gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Diabetig a'r broses o'i gyflwyno ac sydd wedi bod yn gysylltiedig â datblygu ac adolygu'r llwybr gofal diabetig a fydd yn cael ei ddefnyddio mewn gofal sylfaenol.
- Tîm clinigol sy'n darparu addysg ar gyfer cleifion/gofalwyr sydd â diabetes Math 2 mewn grwpiau cymunedol strwythuredig.
- Prosiect Sipsiwn a Theithwyr i alluogi pobl yn y grwpiau hyn i dderbyn triniaeth o fewn ardal y BILI.

S7.3 Serch hynny, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant, canllawiau na chymorth penodol ynglyn â chyflyrau hirdymor na chleifion yn cyfrannu at gynllunio eu gofal. Rhaid i'r BILI ddarparu tystiolaeth o raglenni hyfforddi strwythuredig er mwyn annog, helpu a chefnogi cleifion i reoli eu gofal eu hunain a chynorthwyo gofalwyr wrth eu cefnogi.

S7.4 Yn ystod ein hymweliad safle rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol ynglyn â Rhaglenni Cleifion Arbenigol sy'n ymwneud â dialysis yr arenau a'r grwpiau cleifion diabetig. Er bod y cyrsiau sydd ar gael i gleifion yn gyfyngedig iawn o ran niferoedd, maent wedi darparu cefnogaeth sylweddol iddynt hwy a'u gofalwyr. Serch hynny, oherwydd nifer cyfyngedig y cyrsiau sydd ar gael, ceir teimlad cyffredinol nad yw'r holl gleifion yn ymwybodol o'r rhaglenni ac nad oes gan ddarparwyr gofal sylfaenol

ddigon o wybodaeth am y rhaglenni. Felly, rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Darparu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 8

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a*
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S8.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Gwerthuso ei drefniadau cleifion arbenigol.
- Hyfforddiant Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd.
- Gweithredu ei broses gwynion.
- Gweithredu polisïau Cymru Gyfan sy'n ymwneud ag urddas yn y gweithle, cydraddoldeb, lles yn y gweithle, cyflogaeth HIV/AIDS a chyflogi pobl ag anableddau.
- Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.
- Gweithredu cynllun Iaith Gymraeg.
- Cyflwyno cynllun 'hafan ddiogel'.
- Prosesau ar gyfer asesu risgiau.

S8.3 Ni allwn gadarnhau'r asesiad ei fod yn Ymarfer ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig i ddangos ei fod yn monitro cydymffuriad yn gadarn â'r safon hon ymhlith darparwyr gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae'r BILI wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb a gwahaniaethu. Rhoddwyd cyfle i'r staff roi eu barn am y materion hyn trwy arolwg

cenedlaethol a gwblhawyd gan 65% o'r staff, a drafodwyd gan y fforwm staff, ac ar ôl hynny rhoddwyd cyflwyniad i'r holl staff er mwyn rhoi adborth iddynt ar y canfyddiadau. Cynhyrchwyd cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar y meysydd a nodwyd ar gyfer gwella. Fodd bynnag, gwnaed hyn yn 2006 ac ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gwelliannau wedi'u gwneud o ganlyniad i hynny.

S8.4. Cawsom dystiolaeth bellach yn ystod ein hymweliad safle i ddangos bod hyfforddiant ynglyn â pholisïau caniatâd wedi'i ddarparu yn 2006 a bod hyfforddiant pellach yn cael ei gynllunio. Fodd bynnag, er bod y BILL wedi sefydlu hyfforddiant ar gyfer staff, ac adroddiadau datblygu a chynlluniau gweithredu, ni ddarparwyd tystiolaeth i ddangos gwelliant parhaus ar draws y BILL, felly gallwn gadarnhau asesiad ei fod yn **Datblygu** yn unig ar bob lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. *bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet gytbwys; a*
- b. *bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Ymateb** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2. Mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi'i chael hi'n anodd dehongli'r safon hon. Fodd bynnag, mae'r BILL wedi darparu ymateb a digon o dystiolaeth i ddangos ei fod wedi dechrau mynd i'r afael â'r safon hon. Mae'r BILL wedi darparu tystiolaeth o safonau gofynnol a osodwyd ar gyfer anghenion maeth pobl hyn a phobl ifanc ac mae wedi cynnwys cymalau bwyd a maeth o fewn nifer o'i gytundebau gyda darparwyr y GIG a darparwyr yn y sector annibynnol. Mae'r BILL hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'r Cyngor Iechyd Cymuned i fonitro'r safon hon.

S9.3 Yn ystod ein hymweliad safle cafwyd tystiolaeth bellach o raglen hyfforddi gofal diabetes sy'n cynnwys anghenion deietegol a gwybodaeth am faeth. Mae hyn wedi annog cleifion sydd â diabetes yn yr ardal i ddeall eu cyflwr yn llawn ac mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch deiet. Roedd adborth gan gleifion ynglyn â'r

hyfforddiant gofal diabetes yn gadarnhaol o ran y cyngor deietegol a ddarparwyd. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILL ei fod yn **Ymateb** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 10

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd na thueddfryd rhywiol.

S10.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S10.2. Mae'r polisïau a'r prosesau a ganlyn wedi'u sefydlu:

- Adroddiadau chwarterol sy'n ymwneud â chwynion.
- Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl.
- Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol drafft.
- Polisi ar gyfer datblygu dogfennau corfforaethol.
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.
- Taflenni cwynion mewn amryw ieithoedd; Pwyleg, Portiwgaleg, Cymraeg a Saesneg.

S10.3. Gallwn gadarnhau asesiad y BILL ei fod yn **Datblygu**. Mae'r BILL hefyd wedi dangos ei fod yn cadw at Bolisi Cydraddoldeb Cymru Gyfan. Mae'r Bwrdd wedi cydnabod y cynnydd mewn mewnfydwyr i'w ardal ac mae wedi cynhyrchu amryw daflenni gwybodaeth a chanllawiau mewn Pwyleg a Phortiwgaleg.

S10.4. Darparodd ein hymweliad safle â'r BILL dystiolaeth bellach fod y BILL yn datblygu polisïau i sicrhau yr eir i'r afael â materion cydraddoldeb. Anogir staff i fynychu sesiynau hyfforddi sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

4.2 Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
- b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

S11.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S11.2 Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y BILI i gefnogi ei asesiad yn cynnwys:

- Ei gynllun gweithredu blynyddol 2007-2008.
- Strategaethau archwilio clinigol, gan gynnwys enghreifftiau o'r rhaglen archwilio clinigol o 2006 a'r adroddiad diwedd blwyddyn.
- Polisi a gweithdrefnau cwynion.
- Polisiâu a strategaethau sy'n ymwneud ag adrodd am ddigwyddiadau a pheryglon.
- Strategaeth rheoli meddyginiaeth ar gyfer 2007.
- Trefniadau ar gyfer rhannu canlyniadau clinigol gyda chleifion trwy grwpiau gweithredu lleol.
- Y cynllun gweithredu ar gyfer diabetes a chynllun gweithredu'r grwp cyfeirio cleifion diabetes.

S11.3. Serch hynny ychydig o enghreifftiau a ddarparwyd o sut mae polisiâu a chynlluniau yn cael eu gweithredu. Dylai'r BILI ddarparu tystiolaeth o sut y rhoddir sicrwydd y bydd nyrsys, meddygon a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn derbyn goruchwyliaeth a chefnogaeth. Darparodd ein hymweliad safle â'r BILI dystiolaeth annigonol i gadarnhau bod staff yn derbyn goruchwyliaeth briodol, er y

dywedodd staff y BILI eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth yn eu swyddogaethau a'u bod yn cael digon o gyfle i roi adborth i uwch aelodau o staff trwy grwp fforwm y staff.

S11.4 Gallwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 12

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. yn cydymffurfio ag arfarniadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*
- ch. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl sefydliadau sydd i'w cynnwys, gan gynnwys sefydliadau gofal cymdeithasol.*

S12.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S12.2 Mae'r BILI wedi cadarnhau yr ystyrir anghenion cleifion a'r cyhoedd yn lleol yn ystod y prosesau cynllunio a chomisiynu. Nid oes proses wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd yn benodol ar gyfer gweithredu Hanfodion Gofal, ond mae'r deuddeg agwedd ar ofal a amlinellir yn y dogfennau wedi'u cynnwys yn y cytundebau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.

S12.3 Roedd y BILI yn gallu dangos bod gwaith partneriaeth effeithiol wedi'i sefydlu a rhoddwyd enghreifftiau o grwpiau sy'n gysylltiedig â hynny megis:

- Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
- Y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

- Partneriaeth y Fframwaith Plant a Phobl Ifanc.
- Y Tîm Archwilio Camddefnyddio Sylweddau.

Mae gan Swyddogion y BILI swyddogaethau allweddol ar y grwpiau hyn. Yn ogystal, mae nifer o swyddi ar y cyd wedi'u sefydlu megis:

- Rheolwr Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Iechyd Meddwl.
- Swyddog Datblygu ar y Cyd ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.

Cafwyd tystiolaeth hefyd o waith partneriaeth effeithiol gyda Gofal Sylfaenol.

S12.4 Cefnogir staff y BILI i addasu i wahanol anghenion cleifion trwy broses Adolygu Datblygiad Personol y BILI, cynlluniau datblygu personol a hyfforddiant. Mae'r BILI hefyd yn cefnogi contractwyr Gofal Sylfaenol trwy Gynlluniau Datblygu Arfer yr unigolion a hyfforddiant:

- Llwybrau gofal ar gyfer Diabetes (Math 2).
- Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD).
- Atgyfeirio achosion o Strôc/Pwl o Isgemia Dros Dro.
- Clefyd Coronaidd y Galon.
- Atgyfeirio achosion orthopaedeg.
- Atgyfeirio achosion lle mae amheuaeth o gancr.
- Gofalu am y rheiny sy'n marw a Gofal Lliniarol.

Yn ogystal, mae adolygiad cynhwysfawr o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau wedi'i gynnal ac mae gwasanaeth 'galw heibio' wedi'i ddatblygu o ganlyniad i hynny.

S12.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ond ystyriwn mai dim ond Ymarferer ydyw ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 13

Bydd gan sefydliadau gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S13.2. Roedd y BILL yn gallu dangos ei fod yn datblygu dulliau er mwyn cyflawni'r safon hon. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn cynnwys:

- Cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.
- Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gogledd-ddwyrain Cymru.
- Adroddiad Llywodraethu a Rheoli Ymchwil.
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag AQUARIUS.

S13.3. Gallwn gadarnhau asesiad y BILL ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ar ôl iddo ddarparu ymatebion cynhwysfawr a thystiolaeth ategol ynglyn â dulliau sicrwydd cyfredol. Ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr gallwn gadarnhau'r asesiad ei fod yn **Datblygu**. Cafwyd tystiolaeth o rywfaint o hyfforddiant yn ymwneud ag ymchwil ar gyfer 2005-06. Fodd bynnag, mae'r angen yn parhau i ystyried sesiynau pellach er mwyn tynnu sylw at ofynion ymchwil lleoliadau gofal sylfaenol. Enghreifftiau cyfyngedig yn unig a gafwyd o sut mae staff yn cael eu hysbysu am faterion ymchwil.

S13.4. Yn ystod yr ymweliad safle cafwyd adborth gan y staff eu bod yn fodlon ar y wybodaeth a drosglwyddir o'r Bwrdd a'u bod yn ymwybodol o faterion allweddol. Roeddynt o'r farn y byddai'r panel neu'r pwyllgor cyfrifol yn ymdrin ag unrhyw faterion difrifol sy'n ymwneud ag ymchwil ac yna byddent yn cael eu trosglwyddo i'r tîm perthnasol er mwyn ymateb.

4.3 Rheoli Gofal Iechyd

Safon 14

Mae sefydliadau gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S14.2. Dangosodd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y BILL fod y safon hon yn derbyn sylw gan y Bwrdd, er enghraifft:

- Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Llywodraethu Clinigol.
- Mae'r Bwrdd wedi datblygu polisiau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer Iechyd a Diogelwch.
- Mae'r Bwrdd wedi gweithredu Polisi Adrodd am Ddigwyddiadau.
- Mae'r Bwrdd wedi datblygu trefniadau i gynyddu ymwybyddiaeth o risgiau ac wedi cyflwyno ffurflenni asesu risgiau.

S14.3 O ran hyfforddi staff ac ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch a Rheoli Risgiau ceir enghreifftiau o hyfforddiant rhaglen datblygiad personol, proses sefydlu staff a llawlyfr staff.

S14.4. Rydym yn cadarnhau'r asesiad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Fodd bynnag, mae angen i'r BILL fynd i'r afael ymhellach â chydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch mewn gofal sylfaenol. Mae polisiau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu, ond nid yw'n glir sut maent yn cael eu gweithredu neu eu monitro gan y Bwrdd. Yn yr un modd, mae'r BILL wedi rhoi tystiolaeth fod hyfforddiant wedi'i sefydlu, ond nid yw wedi darparu gwybodaeth ynghylch pa bryd y cynhaliwyd digwyddiadau hyfforddi na faint o bobl a fynychodd yr hyfforddiant. Fel rhan o'n hymweliad safle, gwelsom fod canllawiau

iechyd a diogelwch ar gael ar gyfer staff yn ymwneud ag adeiladau gofal sylfaenol ac adeiladau'r BILI ei hun.

Safon 15

Mae sefydliadau gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd bod y sefydliadau yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S15.2 Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y BILI i gefnogi ei hunanasesiad yn cynnwys:

- Taflen gwynion ar gyfer plant.
- Taflenni cwynion 'hawdd eu darllen' mewn Pwyleg, Portiwgaleg a Chymraeg.
- Posterï 'Cysylltwch â'r BILI'.
- Canllaw i Wasanaethau Lleol.
- Canllawiau ar gyfer cyfathrebu gyda phobl ddall/rhannol ddall a phobl fyddar neu drwm eu clyw, a darparu dogfennau mewn 'print clir'.
- Hyfforddiant Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd.
- Hyfforddiant i staff ar ymdrin â chwynion.
- Cynllun Cyhoeddiadau.
- Enghreifftiau o ymatebion ysgrifenedig i gwynion.

S15.3. Ceir tystiolaeth o ymagwedd eang i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae'n amlwg bod y BILI wedi ymdrechu i gynhyrchu a hyrwyddo ei bolisïau a'i

strategaethau. Er enghraifft, hyrwyddir y system gwynion ar draws Wrecsam mewn adeiladau contractwyr, llyfrgelloedd ayyb. Gallwn gadarnhau'r asesiad bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ond ystyriwn ei fod yn **Datblygu** hefyd ar y lefel Gorfforaethol. Mae hyfforddiant a ddarperir ynglyn â Chynnwys Cleifion a'r Cyhoedd ac ymdrin â chwynion yn sicrhau bod staff yn gallu ymdrin â'r cyhoedd mewn modd priodol. Serch hynny, rhaid i'r BILI fonitro hyfforddiant i sicrhau bod yr holl staff priodol yn cael eu hyfforddi.

S15.4. Darparodd ein hymweliad safle â'r BILI dystiolaeth fod taflenni ar gael yn gyfleus mewn meddygfeydd Meddygon Teulu. Roedd y rheiny a oedd yn bresennol yn y grwp ffocws cleifion a'r cyhoedd yn gwybod am y taflenni cwynion a gynhyrchwyd gan y BILI, ond nid oeddynt yn gwbl ymwybodol o sut yr oedd y system gwynion yn gweithio na sut y gallai'r Cyngor Iechyd Cymuned gynorthwyo cleifion. Rhaid i'r BILI fynd i'r afael â'r materion hyn.

Safon 16

Mae gan sefydliadau gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*
- b. i adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a sefydliadau eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. i ddangos eu bod yn gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac*
- ch. i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.*

S16.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S16.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy:

- Ei Gynllun Gweithredu Blynyddol.
- Ei Gynllun Gweithredu Llywodraethu Clinigol.

- Polisi a chanllawiau ar ddigwyddiadau a pheryglon a threfniadau ar gyfer eu monitro ac adrodd amdanynt.
- Cynllun diogelwch meddyginiaeth.
- Y Bwrdd yn archwilio ac yn monitro ei ddarparwyr gofal eilaidd.
- Enghreifftiau o ddulliau archwilio a rhaglenni archwilio clinigol.
- Gweithgaredd sicrwydd ansawdd deintyddol.
- Cyfarfodydd digwyddiadau ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r BILI.

S16.3. Mae'r BILI wedi darparu tystiolaeth ddigonol i gadarnhau'r asesiad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Mae'r BILI yn cymryd camau i wella diogelwch cleifion ac mae'n ymroddedig i fonitro ac adrodd am ddigwyddiadau. Mae wedi sefydlu'r polisi a'r weithdrefn angenrheidiol ar gyfer digwyddiadau a pheryglon ac mae'n adrodd am ddigwyddiadau i'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPHS). Mae'r BILI hefyd wedi darparu hyfforddiant ar adrodd am ddigwyddiadau ar gyfer staff y BILI a staff contractwyr. Fodd bynnag, nid yw wedi rhoi tystiolaeth o ba bryd y cynhaliwyd yr hyfforddiant na chofnodion presenoldeb. Mae canllawiau wedi'u cynhyrchu er mwyn cynorthwyo staff y BILI a staff contractwyr ac i gefnogi'r hyfforddiant a ddarparwyd. Rhoddodd y Bwrdd dystiolaeth sy'n dangos arfer da o ran peth gwaith ar y cyd gyda fferyllwyr Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru a arweiniodd gynllun i wella gofal a diogelwch cleifion sy'n dod i'r ysbyty. Enillodd y cynllun hwn 'Ddyfarniad Fferyllfa' gan Gymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain.

S16.4 Darparodd yr ymweliad safle â'r BILI dystiolaeth fod staff wedi derbyn hyfforddiant ar adrodd am ddigwyddiadau a monitro. Dywedodd y staff eu bod yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ynghylch arfer a'u bod yn cael rhoi adborth i'r BILI trwy'r pwyllgor llywodraethu clinigol a'r fforwm staff.

Safon 17

Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â sefydliadau eraill.

S17.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S17.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn cynnwys:

- Tystiolaeth o gydymffurfio â gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
- Polisi BILI Gogledd Cymru o ran Amddiffyn Plant.
- Gweithdrefn Amddiffyn Plant y Meddygon Teulu.
- Cronfa ddata hyfforddiant ar Amddiffyn Plant.
- Adroddiad amddiffyn plant blynyddol, ffurflenni digwyddiadau ac adroddiadau digwyddiadau.
- Manyleb y gwasanaeth amddiffyn plant.
- Cofnodion y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.
- Polisi a gweithdrefn Gogledd Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA).
- Mynychu hyfforddiant ar oedolion agored i niwed.

S17.3 Gallwn gadarnhau'r asesiad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Fodd bynnag, roedd y polisïau a'r hyfforddiant amddiffyn plant yn cael eu hadolygu ac yn aros i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae'r BILI wedi darparu hyfforddiant ar faterion amddiffyn plant ac yn cynnal cronfa ddata o'r staff sydd wedi mynychu'r hyfforddiant.

S17.4 Mae'r BILI wedi mabwysiadu Polisi a Gweithdrefn Gogledd Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Cytunwyd ar y ddogfen hon gan holl Fyrddau Iechyd Lleol Gogledd Cymru a'u partneriaid yn 2005. Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu a rhoddodd y BILI dystiolaeth ategol i ni o bresenoldeb a dyddiadau'r hyfforddiant.

S17.5. Yn ystod yr ymweliad safle â'r BILI, dywedodd y staff eu bod yn fodlon ar y wybodaeth a drosglwyddir o'r Bwrdd a'u bod yn ymwybodol o faterion allweddol ynglyn â'r safon hon. Roedd y staff wedi mynychu amryw sesiynau hyfforddi ar y materion sy'n ymwneud â'r safon hon, gan gynnwys POVA a'r Ddeddf Amddiffyn Plant (POCA).

S17.6 Felly, rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 18

Mae sefydliadau gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S18.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn mynd i'r afael â'r safon hon trwy ei systemau adrodd am ddigwyddiadau mawr, strwythurau i gefnogi cynllunio at argyfwng a chynlluniau parhad busnes. Darparodd y BILI agendâu a chofnodion y grwp digwyddiadau a phrotocolau digwyddiadau mawr fel tystiolaeth i gefnogi'r asesiad. Mae'r dystiolaeth bellach a ddarparwyd yn cynnwys canllawiau Cymru Gyfan ynglyn â chlefyd meningococaid a chynllunio parodrwydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol y mae'r BILI yn cydymffurfio â hwy.

S18.3. Gallwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar bob un o'r tair lefel. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn sicrhau bod ymatebion wedi'u sefydlu pe byddai sefyllfaoedd brys yn codi. Mae'r Bwrdd wedi penodi'r Cyfarwyddwr Datblygiad a Pherfformiad i arwain wrth gynllunio parodrwydd at argyfwng. Mae'r Bwrdd yn derbyn ac yn cymeradwyo Cynllun Digwyddiadau Mawr y BILI ac mae wedi derbyn sesiwn frifio ar drefniadau cynllunio at argyfwng y BILI. Mae'r BILI wedi dangos tystiolaeth o gydweithio gyda holl Fyrddau Iechyd Lleol Gogledd Cymru wrth gynllunio at argyfwng a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Swyddog Cynllunio at Argyfwng Gogledd Cymru, yr ariennir ei swydd ar y cyd gan Fyrddau Iechyd Lleol Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae'r BILI wedi datblygu protocol lleol ar gyfer datblygu Canolfan Rheoli Argyfyngau Iechyd (HECC) leol a fyddai'n gweithredu fel canolfan ar gyfer rheoli digwyddiadau lleol. Mae trefniadau'r Ganolfan yn cynnwys swyddogaethau unigolion allweddol a fyddai'n arwain yn yr HECC mewn achos o ddigwyddiad mawr.

S18.4. Yn ystod ein hymweliad safle â'r BILI cawsom dystiolaeth bellach fod y Bwrdd yn gweithio'n agos gyda Byrddau Iechyd Lleol eraill Gogledd Cymru wrth ddatblygu protocolau digwyddiadau mawr. Mae'r Bwrdd yn derbyn sicrwydd ynghylch cynllunio ar gyfer digwyddiadau trwy'r Cyfarwyddwr Datblygiad a Pherfformiad. Mae'r staff yn ymwybodol o'r protocolau ar gyfer argyfwng ac mae canllawiau ar gyfer staff wedi'u cyhoeddi.

Safon 19

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiau meddygol;*
- b. bod dyfeisiau meddygol aml dro yn cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau yn cael eu rheoli; a*
- ch. bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S19.2 Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi asesiad y BILI yn cynnwys:

- Ei Gynllun Datblygu Llywodraethu Clinigol 2005-2008.
- Dull hunanasesu arfer.
- Fferyllfa gymunedol ac adroddiad / cynlluniau gweithredu ôl-ymweliad.
- Ffurflenni hunanasesiad fferyllfa a monitro gwasanaethau hanfodol.
- Dull ac adroddiad hunanasesu sicrwydd ansawdd ar gyfer practisiau deintyddol.
- Adroddiadau Fframwaith Canlyniadau Ansawdd ac adroddiad Asesiad Cronfa Risg Cymru.
- Strategaeth Rheoli Meddyginiaethau 2007 ac adroddiadau.

S19.3 Gallwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Er nad yw'r Bwrdd yn

caffael dyfeisiau ac offer meddygol ei hun fel mater o drefn, mae'n cydnabod ei gyfrifoldeb dros fonitro sefydliadau contractwyr a sicrhau eu bod wedi gweithredu systemau rheoli offer ac yn cadw at ganllawiau cenedlaethol ar gyfer caffael offer. Mae'r BILI wedi dangos bod systemau adolygu ansawdd wedi'u sefydlu ar gyfer practisiau meddygol cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol a phractisiau deintyddol. Mae'r BILI hefyd wedi dangos bod adroddiadau am risgiau perthnasol yn cael eu llunio a bod practisiau gofal sylfaenol yn cael eu harchwilio i sicrhau bod risgiau yn cael eu dileu neu eu lleihau trwy adroddiadau a chynlluniau gweithredu ôl-ymweliad. Mae contractwyr a phractisiau meddygol cyffredinol yn cwblhau hunanasesiadau ac mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r BILI i'w gwirio, ac yna mae'r canlyniadau yn cael eu bwydo'n ôl i'r Bwrdd trwy'r pwyllgor llywodraethu clinigol.

S19.4. Yn ystod ein hymweliad safle â'r BILI cawsom dystiolaeth bellach o'r prosesau sicrwydd sydd wedi'u sefydlu trwy hunanasesiadau. Cynhelir cyfarfodydd ar gyfer arweinwyr rhagnodi bob chwarter i drafod materion pynciol megis cyffuriau newydd a chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE). Darparwyd tystiolaeth hefyd ei fod yn cyhoeddi canllawiau i gontractwyr ynghylch trefniadau ar gyfer cludo, gwaredu a thrin a thrafod gwastraff clinigol.

Safon 20

Mae sefydliadau gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr a gallwn gadarnhau'r asesiad hwn.

S20.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r rhain yn cynnwys:

- Polisi tegwch yn y gweithle.
- Adroddiad o adborth sy'n ymwneud â'i ymrwymiad i 'Fuddsoddwyr mewn Pobl'.
- Agenda diwrnod datblygu staff.
- Canllawiau adolygu datblygiad personol.

- Cynllun gweithredu grwp cyfeirio Diabetes.
- Cofnod llaw cleifion / rhaglen addysg strwythuredig a gwerthusiad o ran Diabetes.
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau.
- Cofnodion a chylch gorchwyl y fforwm staff.

S20.3 Mae gan y BILI system Adolygu Datblygiad Personol wedi'i sefydlu ac mae'n sefydliad 'Buddsoddwyr mewn Pobl' achrededig. Mae'r BILI yn rhoi'r grym i staff godi materion trwy ei system Adolygu Datblygiad Personol a chyfarfodydd rheolaidd gyda'u rheolwyr llinell. Anogir y staff i roi adborth am faterion trwy gyfarfodydd cyfarwyddiaeth a chyfarfodydd tîm misol. Mae'r BILI hefyd wedi cynnal diwrnod datblygu staff. Mae'r BILI wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal. Cafwyd peth tystiolaeth o'r newidiadau a'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad i adborth gan staff, er enghraifft datblygu clwb siaradwyr Cymraeg amser cinio i staff sy'n dysgu Cymraeg ac er mwyn i siaradwyr rhugl ymarfer eu Cymraeg yn anffurfiol.

S20.4 Fel rhan o'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein hymweliad safle â'r BILI, rhoddwyd enghraifft o raglen addysg strwythuredig cleifion arbenigol ar gyfer diabetes a ddatblygwyd o ganlyniad i fenter gan y staff. Roedd y rhaglen wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan y grwp cyfeirio ar gyfer diabetes. Cytunodd y rheiny a fynychodd y grwp ffocws staff eu bod yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad yn y sefydliad a bod rhaglenni hyfforddi ar gael i gefnogi datblygiad o'r fath. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael eu hannog i roi adborth i'r BILI yn ystod cyfarfodydd tîm a chyfarwyddiaeth a thrwy'r grwp fforwm staff.

Safon 21

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. *yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r sefydliadau perthnasol;*
- b. *yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
- c. *yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S21.2 Rhoddodd y BILI dystiolaeth i gefnogi ei asesiad. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys:

- Cydymffurfio â pholisi recriwtio a dethol / polisi a gweithdrefn disgyblu a pholisi chwythu'r chwiban Cymru Gyfan.
- Polisi archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.
- Adroddiad diogelu o ran amddiffyn plant.
- Ffurflenni diweddarau blynyddol i nyrsys practis a nyrsys y BILI.
- Rhaglen sefydlu ar gyfer nyrsys practis.
- Cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer Adnoddau Dynol gyda'r Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau.
- Polisi Amddiffyn Plant BILI Gogledd Cymru.
- Côd ymarfer ar gyfer rheolwyr y GIG ac atebolrwydd ar gyfer byrddau'r GIG.

S21.3 Gallwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel. Mae'r BILI yn ymgymryd ag archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol trwy'r Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau fel rhan o'i gytundeb lefel gwasanaeth. Cedwir canlyniadau archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn ffeiliau personél y staff unigol. Mae'r BILI yn cadw cofrestr o'r nyrsys a gyflogir, sy'n cynnwys manylion cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac fe'i hadolygir bob blwyddyn. Mae arferion recriwtio diogel wedi'u cynnwys ym Mholisi Amddiffyn Plant BILI Gogledd Cymru, sydd wedi'i ddsbarthu i'r holl gontractwyr annibynnol yn Wrecsam. Mae

adborth ar effeithiolrwydd y prosesau wedi'i gofnodi trwy arolwg staff ac mae'r gwersi a ddysgwyd wedi'u cynnwys mewn cynllun gweithredu.

S21.4 Cafwyd cadarnhad yn ystod yr ymweliad safle â'r BILI bod staff wedi cael archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. Roedd aelodau'r staff y siaradwyd â hwy wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed ac amddiffyn plant. Roedd y staff yn ymwybodol o bolisiâu adnoddau dynol ac roeddynt wedi derbyn canllawiau yn y llawlyfr staff a ddosberthir iddynt yn ystod eu cyfnod sefydlu ac sydd ar gael ar Fewnrwyd y BILI.

Safon 22

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod staff:

- a. *yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b. *yn cymryd rhan mewn rhaglenni sefydlu a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- c. *yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S22.2. Dangosodd y BILI ei fod yn gweithio i gyflwyno'r safon hon. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn cynnwys:

- Strategaeth ar gyfer addysgu, hyfforddi a datblygu staff.
- Enghreifftiau o ddisgrifiadau swyddi a manylebau person.
- Cydymffurfio â pholisi rheoli perfformiad Cymru Gyfan.
- Ei gynllun gweithredu blynyddol.
- Llawlyfr sefydlu.
- Cofnodi presenoldeb ar hyfforddiant rheoli gwybodaeth a thechnoleg/rheoli cofnodion.
- Ei raglen datblygiad personol.
- Dadansoddiad o gyfnodau rhyddhau staff ar gyfer astudio a gwerthusiadau.

S22.3 Mae'r BILI yn darparu rhaglenni datblygiad personol ar gyfer y staff ac yn eu monitro trwy gofnod datblygiad personol yr aelodau unigol o staff. Mae staff yn cael eu recriwtio trwy bolisi recriwtio a dethol Cymru Gyfan a chynhelir archwiliadau cyflogaeth trwy'r Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu strategaeth addysg a hyfforddiant. Mae perfformiad a chymhwysedd staff yn cael eu monitro trwy'r broses Adolygu Datblygiad Personol a chefnogir hyn gan bolisi rheoli perfformiad y BILI. Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ac maent yn cael eu rhyddhau o'r gwaith i astudio pan fo hynny'n briodol. Serch hynny, nid yw'r BILI wedi darparu dadansoddiad o Adolygiadau Datblygiad Personol staff fel tystiolaeth nac wedi darparu gwybodaeth ynghylch pa mor aml y maent yn cael eu hadolygu.

S22.4. Dywedwyd wrthym fod staff yn gallu rhoi adborth i'r BILI a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y BILI i ddatblygu o fewn eu swyddi. Roeddynt hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr llinell unigol a'u bod yn cael cynnig cyfleoedd datblygu gan gynnwys y posibilrwydd o ennill cymwysterau proffesiynol. Felly, rydym yn asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, ond yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 23

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle; a chan*
- b. raglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S23.2 Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon, ac roedd ei dystiolaeth yn cynnwys:

- Datblygu gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer Meddygon.
- Mabwysiadu Polisi Chwythu'r Chwiban Cymru Gyfan.

- Cynllun datblygu a strategaeth llywodraethu clinigol y BILI.
- Polisi digwyddiadau ac adrodd y Bwrdd.
- Polisi diogelu data a chyfrinachedd.
- Polisi, gweithdrefn a llawlyfr i staff ar fynegi pryderon sy'n cael eu defnyddio o fewn y BILI.
- Cysiau hyfforddi, megis hyfforddiant ar ddigwyddiadau mewn cartrefi gofal, cyflwyniad a sesiynau ymwybyddiaeth ynglyn â gwrth-dwyll.
- Adroddiadau chwarterol ar ddigwyddiadau a pheryglon.

S23.3 Gallwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel. Mae'r BILI wedi sefydlu strategaethau, polisïau a gweithdrefnau er mwyn cefnogi staff wrth fynegi pryderon. Mae cynllun gweithredu'r BILI yn cefnogi diwylliant o ddidwylledd a gonestrwydd. Cafwyd tystiolaeth o reoli ac ymchwilio'n briodol i'r pryderon a fynegwyd. Hysbysir staff am y polisïau hyn trwy raglen sefydlu'r BILI ac maent hefyd yn derbyn copi o'r llawlyfr sefydlu staff, sydd hefyd ar gael ar fewnwyd y BILI. Fodd bynnag, tystiolaeth gyfyngedig a ddarparwyd gan y BILI i awgrymu bod newidiadau neu welliannau wedi'u gwneud o ganlyniad i bryderon a godwyd neu ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt, er bod dulliau wedi'u sefydlu i gasglu a monitro gwybodaeth am ddigwyddiadau a godir gan staff, contractwyr lleol a sefydliadau eraill. O ran cyfrinachedd a diogelu gwybodaeth, mae'r BILI wedi darparu tystiolaeth i gadarnhau bod polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar ymdrin â gwybodaeth a diogelu gwybodaeth ac mae'r materion hyn wedi'u cynnwys yn y rhaglen sefydlu staff.

S23.4. Yn ystod yr ymweliad safle â'r BILI rhoddwyd sicrwydd i ni bod y staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer mynegi pryderon ac roeddynt wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu data a thrin a chadw gwybodaeth yn ddiogel.

Safon 24

Mae sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S24.2 Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y BILI i gefnogi ei asesiad yn cynnwys:

- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles y BILI a'i adroddiad ac adolygiad perfformiad blynyddol.
- Cylch gorchwyl y grwp comisiynu ar y cyd a chynllun comisiynu gofalwyr y gwasanaethau cymdeithasol.
- Enghreifftiau o'r adolygiad gwasanaethau cymunedol (camddefnyddio sylweddau) ac adolygiad 'atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff'.
- Cynlluniau gweithredu ar gyfer anabledau dysgu ac iechyd meddwl lleol.

S24.3 Gallwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Mae'r BILI wedi rhoi enghreifftiau o'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i'r boblogaeth. Mae'r BILI wedi ffurfio bwrdd partneriaeth amlasiantaethol a arweinir gan y BILI ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Wrecsam, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS), y Cyngor Iechyd Cymuned a'r Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol. Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd ar gyfer datblygu strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles lleol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, byddai'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn elwa o ddatblygu blaenoriaethau allweddol a threfniadau ar gyfer gwerthuso ymhellach. Mae'r BILI yn bwriadu adolygu a diwygio ei strategaeth iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer 2008-2011.

S24.4 Mae gan y BILI banel comisiynu ar y cyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Wrecsam sy'n gyfrifol yn gyffredinol am gomisiynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Wrecsam. Mae gwaith pellach wedi'i wneud ar y cyd gyda Chyngor Sir Wrecsam, er enghraifft yn ymwneud â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer oedolion. Mae'r BILI a Chyngor Sir Wrecsam wedi comisiynu gwasanaethau anabledau dysgu ac iechyd meddwl integredig sy'n gweithredu o dan un strwythur rheolaeth linell.

S24.5 Cadarnhaodd yr ymweliad safle â'r BILI dystiolaeth o gydweithio gyda phartneriaid ac yn enwedig y berthynas agos gyda Chyngor Sir Wrecsam, y Cyngor Iechyd Cymuned a BILI Sir y Fflint. Gwelwyd tystiolaeth dda hefyd o'r BILI yn cydweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru.

Safon 25

Mae sefydliadau gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S25.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn mynd i'r afael â'r safon hon. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi ei asesiad yn cynnwys:

- Cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer rheoli gwybodaeth a thechnoleg gyda'r Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau.
- Gwybodaeth ynghylch trefniadau Caldicott y BILI gan gynnwys enghreifftiau o fapio ffrydiau gwybodaeth a'r adroddiad alldro i'r Bwrdd, cynnydd o ran archwilio rheolwyr ac adroddiadau sylfaenol ac enghreifftiau o holiaduron.
- Grwpiau, polisi a hyfforddiant ar gyfer Gwybodaeth a Thechnoleg.
- Polisi Mynediad at Gofnodion Iechyd y BILI, a chynllun adfer mewn trychineb.
- Polisiâu'r BILI ar gyfer defnyddio'r Rhyngrwyd a negeseuon e-bost.

- Tystiolaeth o gynnal asesiad risg o ran Technoleg a Rheoli Gwybodaeth (IM&T) a threfniadau rheoli cofnodion.
- Tystiolaeth fod staff wedi derbyn hyfforddiant mewn meysydd megis diogelu data a'r ddeddf rhyddid gwybodaeth. Mae staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer y Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd.

S25.3. Rydym yn cadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar bob un o'r tair lefel.

S25.4 Mae gan y BILI strategaeth addysg, hyfforddiant a datblygiad gyfredol sy'n cynnwys cyfeiriad penodol at Dechnoleg a Rheoli Gwybodaeth a hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth. Mae'r Bwrdd wedi penodi'r Cyfarwyddwr Cyllid i fod yn gyfrifol am Dechnoleg a Rheoli Gwybodaeth. Mae swyddogaeth y rheolwr cefnogi gwybodaeth a llywodraethu yn cynnwys cyfrifoldeb dros hyfforddiant perthnasol a hwyluso Technoleg a Rheoli Gwybodaeth a ddarperir ar y cyd gyda'r Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau. Mae aelodau presennol o'r staff yn derbyn sesiynau briffio/hyfforddi ar faterion Technoleg a Rheoli Gwybodaeth trwy sesiynau briffio staff, cyfarfodydd cyfarwyddiaeth a sesiynau hyfforddi. Mae canllawiau a pholisïau yn bodoli i sicrhau bod staff yn defnyddio Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn effeithiol ac yn cael eu hannog i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r BILI wedi darparu cofnodion hyfforddi ynglyn â hyfforddiant Technoleg a Rheoli Gwybodaeth. Mae'r BILI wedi penodi'r Rheolwr Cefnogi Gwybodaeth a Llywodraethu yn arweinydd gweithredol ar gyfer y swyddogaethau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn y BILI, gan gynnwys diogelwch a diogelu data.

S25.5 Mae'r BILI yn ymgymryd â rhaglen dreigl dros dair blynedd er mwyn amlinellu llif y wybodaeth adnabyddadwy am gleifion i mewn ac allan o'r BILI, er enghraifft o ran cofnodion gofal iechyd parhaus. Yn dilyn argymhellion Caldicott mae'r BILI wedi cynnal archwiliad rheolaeth sylfaenol gan ddilyn unrhyw gynnydd a chynhyrchu adroddiadau alldro ar ei gydymffurfiad, a chyflwynwyd y rhain i'r Bwrdd.

S25.6 Cadarnhaodd ein hymweliad safle â'r BILI fod staff yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant ar faterion Technoleg a Rheoli Gwybodaeth gan gynnwys rheoli cofnodion. Mae'r hyfforddiant sefydlu yn cynnwys trosolwg cryno o faterion Technoleg a Rheoli Gwybodaeth a ddilynir gan hyfforddiant mwy penodol. Anogwyd

staff i gyflawni'r Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd. Mae staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu er mwyn defnyddio Technoleg a Rheoli Gwybodaeth a rheoli cofnodion yn ddiogel.

Safon 26

Mae gan sefydliadau gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:

- a. *bod sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddar'u wybodaeth i ateb y diben gweithredol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a*
- b. *bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S26.2. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y BILL i gefnogi ei asesiad yn cynnwys:

- Polisi a gweithdrefnau'r Ddeddf Diogelu Data.
- Polisi a gweithdrefn Rhyddid Gwybodaeth y BILL.
- Canllawiau rheoli cofnodion.
- Polisi Technoleg a Rheoli Gwybodaeth y Bwrdd.
- Disgrifiadau swyddi perthnasol.
- Polisi mynediad at gofnodion iechyd, polisi e-bost a pholisi rheoli cofnodion y BILL.
- Polisi ar gyfer datblygu dogfennau corfforaethol.
- Llawlyfr Caldicott y BILL ar gyfer hyfforddi staff.

S26.3. Gallwn gadarnhau asesiad y BILL ei fod yn **Ymarfer** ar bob un o'r tair lefel. Mae'r BILL wedi darparu tystiolaeth ei fod wedi sefydlu strategaethau, polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu rheoli'n effeithiol yn unol â chanllawiau cenedlaethol, gydag enghreifftiau o bolisïau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth y mae'r BILL wedi'u datblygu, megis polisïau e-bost a'r rhyngwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo ei gynllun archwilio a gwella rheolaeth Caldicott. Mae'r BILL wedi enwi'r Gwarcheidwad Caldicott yn Gyfarwyddwr Meddygol, a'r Rheolwr Cefnogi Gwybodaeth a Llywodraethu yn swyddog diogelu data a swyddog diogelwch TG.

S26.4. Yn ystod yr ymweliad safle â'r BILI, roedd yn amlwg bod y staff yn ymwybodol o bwysigrwydd rheoli cofnodion a defnyddio Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant a oedd yn berthnasol i ofynion eu swyddi. Roedd y staff hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac roeddynt yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da wedi'u sefydlu sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac*
- d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1. Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S27.2 Roedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y BILI i ddangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon yn cynnwys:

- Cofnodion Bwrdd y BILI.
- Adroddiad blynyddol y BILI.
- Cofrestr risg lefel uchel y Bwrdd.
- Gwybodaeth ynghylch trefniadau llywodraethu a chynllun archwilio mewnol y BILI.
- Cyfarwyddiadau ariannol sefydlog ac enghraifft o adroddiad ariannol.
- Barn ac adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Archwilio.
- Safonau ymddygiad busnes a gwrthdaro buddiannau'r BILI.
- Polisi a strategaeth rheoli risgiau'r Bwrdd ac adroddiad blynyddol sy'n ymwneud â'r rhain.

- Enghreifftiau o gyflwyniadau'r Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid.

S27.3 Mae'r BILI wedi darparu gwybodaeth ynghylch adrodd am lywodraethu, sy'n cynnwys amryw gofnodion cyfarfodydd a'r trefniadau llywodraethu mewnol a'r cynllun archwilio mewnol, ond gwybodaeth gyfyngedig yn unig a roddwyd am union strwythur llywodraethu'r BILI. Mae sesiynau briffio'r staff yn cynnwys eitemau yn ymwneud â'r trefniadau llywodraethu integredig, ond ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd i awgrymu bod staff yn rhan ymarferol o'r trefniadau adrodd. Rhoddwyd tystiolaeth o atebolrwydd ariannol fel yr amlinellwyd yn y cyfarwyddiadau ariannol sefydlog, ac adolygir y rhain yn flynyddol. Mae staff yn derbyn sesiynau briffio ar drefniadau rheoli ariannol trwy sesiynau briffio staff a chyfarfodydd cyfarwyddiaeth.

S27.4 Yn ystod yr ymweliad safle â'r BILI cafwyd tystiolaeth fod staff yn ymwybodol o bwysigrwydd adrodd a monitro ariannol. Mae gan bob cyfarwyddiaeth gynrychiolydd sy'n aelod o'r grwp rheoli risgiau sy'n adrodd i'r prif swyddog dros reoli risgiau. Rydym yn cytuno â'r BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a'i fod yn cymryd camau i integreiddio ei agenda Llywodraethu. Rydym yn ystyried ei fod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 28

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S28.2 Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon, ac roedd ei dystiolaeth yn cynnwys:

- Cynllun datblygu, cofnodion a strategaethau llywodraethu clinigol.

- Strategaeth gyfathrebu'r BILL.
- Strategaeth addysg, hyfforddiant a datblygiad y Bwrdd.
- Strategaeth ystadau.
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithas a Lles.
- Y Strategaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth.
- Polisi digwyddiadau a pheryglon.
- Strategaeth Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd y BILL.
- Enghreifftiau o raglenni datblygu arfer.
- Papur briffio ar adolygu ansawdd a chanlyniadau.

S28.3 Mae'r BILL wedi nodi cyfrifoldebau arweiniol, strwythurau pwyllgor a strategaethau allweddol ac mae cynlluniau gweithredol wedi'u sefydlu i weithredu llywodraethu clinigol yn effeithiol. Mae cydymffurfriad a chynnydd yn erbyn amcanion a chanlyniadau strategol llywodraethu clinigol yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol sydd wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd i fod yn atebol am hyn. Ceir tystiolaeth o gynnydd ynglyn â'r materion hyn yn adroddiad blynyddol y BILL. Mae pryderon Llywodraethu Clinigol o ran gofal sylfaenol yn cael eu hadrodd a'u monitro trwy brosesau rheoli risgiau'r BILL neu adroddiadau digwyddiadau a pherfformiad clinigol cyfrinachol i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae staff yn cael eu briffio ar faterion llywodraethu a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am bolisïau datblygiadol. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu bod staff yn ymwneud â datblygu a monitro systemau llywodraethu clinigol.

S28.4. Yn ystod yr ymweliad safle â'r BILL, cadarnhaodd y staff eu bod yn ymwybodol o weithdrefnau a pholisïau Llywodraethu Clinigol a'u bod yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am newidiadau. Felly, rydym yn cytuno ag asesiad y BILL ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

4.4 Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae sefydliadau gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

- a. drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b. thrwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chynghor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S29.2. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi ei asesiad a oedd yn cynnwys:

- Adroddiad perfformiad blynyddol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.
- Asesiadau o anghenion.
- Adroddiadau monitro gofalwyr a phobl hyn.
- Cynghor ynghylch therapi Bobath.
- Cylch gorchwyl grwp llywio parc Caia.

S29.3 Darparodd y BILL dystiolaeth dda o'i drefniadau partneriaeth ynghyd â datblygu, gweithredu a gwerthuso ei strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Ceir tystiolaeth o fonitro ei drefniadau'n briodol a dulliau i sicrhau gwelliant parhaus. Ceir enghreifftiau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn dylanwadu ar y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ac yn cael eu hannog i godi materion sy'n ymwneud â gwasanaethau. Mae'r BILL wedi drafftio cynllun gwella er mwyn cael mwy o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn pennu a yw'r strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles wedi bod o fudd i gleifion. Mae grwp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i werthuso'r arfarniad opsiynau o ran y cynllun 'Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff' a bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Grwp Comisiynu ar y Cyd.

S29.4 Ceir tystiolaeth dda o gydweithio a phartneriaethau amlasiantaethol a arweinir gan y BILL ar y cyd â sefydliadau megis Cynghor Sir Wrecsam ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru. Felly, rydym yn cytuno ag asesiad y BILL ei fod yn

Ymarfer ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 30

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydau a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydau; ac*
- b. *yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarfer** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S30.2 Rhoddodd y BILI dystiolaeth o'i ymagwedd at gyflawni'r safon hon. Roedd ei dystiolaeth yn cynnwys:

- Gwybodaeth am brosiectau megis 'Gweithredu Maeth', 'Gweithredu Gweithgarwch Corfforol' a Rheoli Tybaco.
- Cyhoeddiadau y mae'r BILI wedi'u dosbarthu megis yr ymgyrch 'Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn yn Wrecsam'.
- Protocolau ar gyfer clefydau cronig ac imiwneiddio, gan gynnwys protocolau ac arferion imiwneiddio plant.
- Gwybodaeth am y gynghrair iechyd a'r cysylltiadau rhyngddo a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a'r cynllun busnes.
- Gwybodaeth am rwydweithio iechyd cyhoeddus a gwybodaeth am y tîm iechyd cyhoeddus lleol.
- Cynlluniau ar gyfer cynyddu gweithgareddau corfforol yn Wrecsam.

S30.3. Mae'r BILI wedi rhoi enghreifftiau o ddatblygu systemau, gweithdrefnau ac arferion i atal clefydau. Mae'r meysydd datblygu allweddol yn cynnwys y strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a phartneriaethau cydweithio gyda sefydliadau

megis y tîm iechyd cyhoeddus lleol a Chyngor Sir Wrecsam. Mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, mae taflenni a llyfrynnau gwybodaeth wedi'u darparu i'r cyhoedd. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd gan y BILI i ddangos bod gweithdrefnau gwerthuso wedi'u sefydlu neu fod gwelliannau wedi'u gwneud o ganlyniad i werthuso neu adborth. Mae'r rhaglenni atal clefydau a'r rhaglenni hybu iechyd wedi'u datblygu yn unol ag ystod o strategaethau a fframweithiau cenedlaethol a amlinellwyd yn 'Cynllun Oes' a dogfennau cenedlaethol a lleol cysylltiedig eraill. Mae'r BILI wedi defnyddio fforymau cynnwys y cyhoedd i gefnogi'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'i raglenni gwella iechyd cysylltiedig. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd wedi darparu tystiolaeth o unrhyw welliannau a wnaed trwy ddefnyddio fforymau cynnwys y cyhoedd. Felly, rydym yn asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 31

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b. *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd; ac*
- ch. *yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1 Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32

Mae'r sefydliadau gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S32.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon, ac roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddo i gefnogi ei asesiad yn cynnwys:

- Cynllun Gweithredu Iechyd Corfforaethol y Bwrdd.
- Adroddiad a llythyr dyfarnu'r aseswyr iechyd corfforaethol.
- Arolwg staff, cynllun gweithredu a throsolwg iechyd corfforaethol.
- Cylchlythyr iechyd corfforaethol y BILI.

S32.3. Gallwn gadarnhau asesiad y BILI ei fod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae'r BILI yn cydnabod pwysigrwydd y safon iechyd gorfforaethol fel sbardun o bwys ar gyfer gwella iechyd y gweithlu; cefnogi staff i gyflawni eu potensial eu hunain a chyfrannu at ddatblygu'r BILI yn gyffredinol.

Dangosodd y BILI ei ymrwymiad i'r safon hon trwy sefydlu gweithgor i oruchwylio datblygiad cynllun gweithredu ar draws y BILI i wella llwyddiannau'r sefydliad rhagflaenol o ran y safon iechyd gorfforaethol. O ganlyniad, dywedodd y grwp ffocws staff fod y BILI cyfan yn ymwneud â hyn a bod yr holl staff yn ymrwymedig i gyflawni'r dyfarniadau hynny.

Mae crynodeb o'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon, fel y'u haseswyd gan BILI Wrecsam trwy ei hunanasesiad a chan AGIC yn dilyn profi a gwerthuso, i'w weld yn Atodiad 2.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol i BILI Wrecsam gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Bydd Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno ar y cynllun hwn, a bydd yn monitro ei weithredu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd wedi'u sefydlu ar gyfer GIG Cymru. Bydd y cynllun ar gael ar wefan y BILI.

5.2. Yn ystod y misoedd i ddod bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r dull asesu ar gyfer y dyfodol ac i alinio proses hunanasesu'r Safonau Gofal Iechyd â'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd yn cynnwys y canfyddiadau o adroddiadau unigol mewn trosolwg o'r sefyllfa ar draws Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd yn ystod proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd.

Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymateb	Datblygu	Ymarfer	Arwain
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ond nid yw'n gallu dangos penderfyniadau/camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac mae wedi nodi opsiynau i'w blaenoriaethu, ond nid oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da ar draws y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ar draws y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy weithredu arfer arloesol a rennir ar draws y sefydliad a'r tu hwnt iddo, sy'n golygu y gellir gwireddu cynladwyedd hirdymor.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ond nid oes unrhyw ddulliau wedi'u datblygu i fynd i'r afael â hwy.	Ceir cydnabyddiaeth o'r materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt ac mae ystod o opsiynau wedi'u nodi i fynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o gymhwysio ymarferol ar draws y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda yn cael eu gweithredu ar draws y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol, a cheir tystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arfer arloesol, a rennir ar draws y sefydliad a'r tu hwnt iddo. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn wael ar y cyfan ac nid oes dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda ar y cyfan, er bod dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ar draws y sefydliad hyd yma.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn dda ar y cyfan ar draws yr holl feysydd.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn ardderchog ar y cyfan, ac mae'r gwasanaeth yn gallu dangos tystiolaeth glir o arfer da, y gellir ei rannu.

Atodiad 2

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y 32 Safon

Allwedd

L	Arwain
P	Ymarfer
D	Datblygu
R	Ymateb
A	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 2

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 3

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 4

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 5

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 6

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 7

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 8

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 9

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	R	↔	R
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	R	↔	R
Profiad y Defnyddiwr	R	↔	R

Safon 10

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 11

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 12

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 13

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 14

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 15

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 16

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 17

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 18

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 19

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 20

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 21

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 22

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 23

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 24

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 25

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 26

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 27

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 28

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 29

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 30

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D



Safon 31 - Amherthnasol

Safon 32


	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Clinigol/Gweithredol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Atodiad 3


Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl y Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Claf




**Sgorau Aeddfedrwydd y Lefel Canlyniadau
Gweithredol/Clinigol**



Sgorau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/Anghytuno â Sgôr y BILI



Rhestr Termau Allweddol

Grwp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan – mae'n cynghori'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau strategol.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n darparu model er mwyn i sefydliad egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u rhoi ar waith. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus ym mherfformiad y sefydliad.

Gwarcheidwad Caldicott - uwch glinigwr ym mhob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a oedd yn adolygu diogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal - set ddiffiniedig o gamau triniaeth a gofal a luniwyd i fodloni anghenion penodol pob claf.

archwilio clinigol – dull a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol iechyd i werthuso a mesur i ba raddau y maent yn bodloni'r safonau a osodwyd ar gyfer eu gwasanaeth.

llywodraethu clinigol – fframwaith a ddefnyddir i sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau a chynnal safonau uchel o ran gofal yn barhaus.

rhwydweithiau clinigol – grwp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws ffiniau cyfundrefnol er mwyn darparu gwell gofal i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd a lles unigolyn.

Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) - sefydliadau di-elw, cymunedol sy'n ymwneud â hybu iechyd, eiriolaeth iechyd a pholisïau iechyd. Sefydlwyd Cyngorau Iechyd Cymuned ym 1992 er mwyn cryfhau cyfranogiad y gymuned wrth ddiffinio polisïau gwladol a lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd ac ansawdd gofal iechyd. Mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli lles y cyhoedd yn y GIG ac mae hawl statudol ganddynt i fod yn rhan o ymgynghoriadau ynghylch newidiadau iechyd yn eu hardaloedd.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd er mwyn helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth am gofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn helpu cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys cysylltiad â phlant neu bobl eraill sy'n agored i niwed mewn cymdeithas.

diogelu data – gofyniad ar sefydliadau cyhoeddus ac eraill i weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Ymdrinnir â chyfrifoldebau o'r fath gan

Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a luniwyd i ddiogelu data a gedwir am unigolion.

Cynllun Oes - mae'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae ganddo strategaeth ddeng mlynedd er mwyn gwireddu hynny. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, gyda phob un ohonynt yn para tua thair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflawni Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o Safon Fyd-eang.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cefnogi'r GIG a sefydliadau partner wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

rheoli heintiau – set o weithdrefnau ar gyfer atal lledaenu heintiau, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer dihaint, ayyb.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) - sefydliadau statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - sefydliadau hunanlywodraethu o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ymddiriedolaethau yn cyflogi ystod lawn o weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, ayyb. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol mewn ysbytai fel arfer. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel arfer yn y gymuned, e.e. nyrsys ardal, trinwyr traed, ayyb. Mae ymddiriedolaethau cyfun yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaeth gymunedol ac aciwt o dan un system reoli.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau ar gyfer y GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 er mwyn cydlynu ymdrechion y wlad gyfan i adrodd ac, yn bwysicach, i ddysgu o gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS) – mae'n cyflwyno ystod lawn o wasanaethau iechyd y cyhoedd sy'n ceisio: gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; diogelu yn erbyn clefydau a bygythiadau iechyd cyfredol, newydd ac sy'n dod i'r amlwg ac; yn cyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) - canllawiau ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o glefydau a salwch.

Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (CCC) – strategaeth a luniwyd i sicrhau bod barn a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys – rhaglen sy'n caniatáu amser wedi'i neilltuo i nyrsys er mwyn iddynt arsylwi gofal a darparu gwasanaethau, a chyfweld â chleifion ynghylch darparu gofal. Fe'i lluniwyd i alluogi nyrsys i ddatblygu a gwella eu sgiliau arwain, gwella sgiliau tîm a threfnu a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

Datganiadau o Reolaeth Fewnol - datganiad ar drefniadau cyffredinol sefydliad y GIG ar gyfer ceisio sicrwydd bod y prif risgiau o fewn y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth – grwp o bobl sy'n gyfrifol trwy statud am wneud penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel arfer mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Cronfa Risg Cymru – cynllun hunansicrwydd ar y cyd ar gyfer pob sefydliad iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad da o ran rheoli risgiau ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau penodol.